Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Cylch Meithrin Bronwydd**

**Neuadd Goffa**
**Bronwydd**
**Caerfyrddin**
**SA33 6BE**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**Dydd Mercher, 15 Awst 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Cylch Meithrin Bronwydd yn darparu gofal sesiynol ar gyfer uchafswm o 24 o blant rhwng dwy a phedair blwydd oed. Mae’r gwasanaeth yn gweithredu o'r Neuadd Goffa ym mhentref Bronwydd. Yr oriau gweithredu yw 9.15am i 12pm ddydd Mawrth i ddydd Gwener. Caiff y cylch meithrin ei ariannu i ddarparu gofal i blant tair blwydd oed, ac felly caiff ei arolygu gan Estyn. Y person cofrestredig yw Mair Rees. Darperir y gofal trwy gyfrwng y Gymraeg.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

1. **Asesiad cyffredinol**

   Canfuom fod plant sy'n mynychu Cylch Meithrin Bronwydd yn hapus iawn ac wedi ymgartrefu’n dda. Maent yn derbyn gofal gan staff meithringar, gwybodus a brwdfrydig sydd wedi ymrwymo i ddiwallu eu hanghenion unigol. Mae'n amlwg fod y plant yn mwynhau eu hamser yn y gwasanaeth yn fawr ac maen nhw'n elwa o weithgareddau sydd wedi'u cynllunio'n feddylgar. Nid oes ardal ddynodedig y tu allan, ond mae gan y gwasanaeth ddefnydd o'r neuadd fawr a mynediad i faes chwarae a pharc. Mae'r rhieni yn fodlon ar gynnydd eu plant a'r gwasanaeth a ddarperir.

2. **Gwelliannau**

   Mae hambyrddau mawr newydd wedi'u prynu ar gyfer chwarae tywod, dŵr a synhwyraidd.

3. **Gofynion ac argymhellion**

   Gwnaethom argymell y canlynol:

   - bod ffens yn cael ei gosod wrth ymyl y grisiau sy'n arwain at y neuadd

## 1. Llesiant

### Crynodeb

Mae gan blant Cylch Meithrin Bronwydd ddewis, gwrandewir arnynt, ac maent yn gallu gwneud dewisiadau. Maent yn hapus a diogel ac yn mwynhau'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt.

### Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan y plant lais?

Mae gan blant Cylch Meithrin Bronwydd ddewis, gwrandewir arnynt, ac maent yn cyfathrebu â'i gilydd a’r oedolion sy'n gofalu amdanynt.

Wrth gyrraedd y gwasanaeth, dewisodd y plant â hyder o ystod o weithgareddau megis trenau, dosbarthwyr siâp, dillad chwarae rôl a thywod. Roedd y plant yn amlwg wedi arfer â'r drefn ac roedd y plant yn dewis ble'r oeddent eisiau chwarae yn hyderus. Cafodd y plant gyfleoedd niferus yn ystod y sesiwn i leisio barn a gwneud dewisiadau personol. Yn ystod amser cylch, roedd gan blant ddewis o siapiau lliw i eistedd arnynt a gwnaethant ofyn a allent ganu un gân benodol ar gyflymder cyflym. Wrth gymryd rhan mewn gweithgaredd â ffocws, roedd y plant yn dweud ar lafar pa ffrwythau nad oeddent am eu hychwanegu at eu cwscws: "Fi ddim yn hoffi tomato." Roedd y plant yn hyderus y cânt ymateb cadarnhaol wrth wneud ceisiadau. Rhoddwyd amser a sylw i'r plant pan oeddent yn siarad. Er enghraifft, roedd un plentyn am ddweud wrth y staff fod ganddi sannau “PAW Patrol” newydd a bod ganddi frawd bach newydd.

Mae gan y plant lais cryf iawn.

### 1.2 I ba raddau mae plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn fodlon ac wedi ymgartrefu'n dda yn y gwasanaeth. Maent yn hapus, wedi ymlacio ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan staff.

Roedd y plant yn cyrraedd y gwasanaeth yn hapus ac yn gwenu'n fodlon wrth i'r staff eu cyfarch wrth y drws. Roedd y plant yn cysylltu â staff yn hyderus ar wahanol adegau yn ystod y sesiwn ac yn gwybod y byddent yn cael ymateb cadarnhaol. Roedd plant yn gwisgo i fyny yn y gornel chwarae rôl cyn dangos eu gwisgoedd i'r staff. Roeddent wrth eu bodd pan ddywedodd y staff am eu dewis ardderchog o sbectol haul a hetiau haul oherwydd y tywydd poeth. Yn ystod amser cylch, rhoddwyd sylw i bob plentyn yn ei dro. Gofynnwyd i un plentyn a fyddai'n hoffi dweud ei newyddion cyffrous wrth y plant. Roedd y plentyn yn falch o ddweud wrth y plant ei bod hi'n chwaer fawr a beth oedd enw ei brawd newydd. Clapiodd y plant eraill yn ddigymell, ac roedd y ferch fach wrth ei bodd â hyn.

Mae'r plant yn teimlo bob amser yn ddiogel ac yn hapus a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi.

## 1.3 Pa mor dda mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn dechrau deall eu teimladau ac maen nhw'n sensitif i emosiynau pobl eraill. Maent yn cymryd eu tro, yn rhannu ac yn cydweithredu.

Roedd y plant yn chwarae ar eu pen eu hunain, ochr yn ochr â'i gilydd, mewn parau ac mewn grwpiau bach. Roedd un plentyn yn hapus yn eistedd yn y gornel ddarllen ar sedd gyfforddus yn edrych trwy lyfrau. Roedd y plant yn chwarae'n hapus gyda'i gilydd. Er enghraifft, roedd y plant yn fodlon wrth rannu adnoddau megis bwcedi, rhawiau, gograu a chribiniau yn y tywod. Roeddent yn cydweithio i greu trac trên cyn cymryd tro i wthio'r trenau o gwmpas y trac. Roedd y plant yn garedig ac yn ystyriol o'i gilydd, gan ddal dwylo a chofleidio ei gilydd. Yn ystod amser cylch a'r gweithgaredd coginio â ffocws, roedd plant yn cymryd eu tro yn naturiol ac yn pasio adnoddau i'w gilydd. Yn ystod ymarfer ar gyfer y diwrnod mabolgampau, gwnaeth plant glapio i annog eu ffrindiau. Ar ddiwedd y sesiwn, chwifiodd y plant i ddweud hwyl fawr i'w ffrindiau ac roedd yn amlwg eu bod wedi ffurfio cyfeillgarwch.

Mae’r plant yn rhyngweithio'n dda iawn gyda'i gilydd.

## 1.4 I ba raddau mae plant yn mwynhau eu chwarae a’u dysgu?

Mae plant yn brysur ac yn ymddiddori yn eu chwarae. Maent yn cynnal diddordebau mewn gweithgareddau ac yn gyfarwydd â chwarae strwythuredig ac amser rhydd.

Bu'r plant yn archwilio eu hamgylchedd yn rhydd ac roeddent yn hyderus wrth nôl teganau ac adnoddau eraill fel y dymunent. Atebodd y plant gwestiynau'n frwdfrydig am y cymeriadau yn y stori "Beni a'i fysedd rhyfeddol".  Roeddent yn mwynhau actio rhannau o'r stori. Er enghraifft, rhoddwyd cyfle i bob plentyn chwarae piano bach yn union fel y cymeriad yn y llyfr. Yn ystod amser cylch, roedd y plant yn gallu adrodd dyddiau'r wythnos a misoedd y flwyddyn ac ateb cwestiynau am y tywydd yn hyderus. Roedd y plant yn mwynhau'r gweithgaredd coginio ac roeddent yn falch iawn wrth ddangos beth oeddent wedi bod yn ei wneud yn ystod sesiwn y bore i'w gofalwyr.

Mae’r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu yn fawr iawn.

## 1.5 Pa mor dda mae'r plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae gan blant gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibynnol a'u hannibyniaeth.

Wrth gyrraedd y gwasanaeth, daeth y plant o hyd i’w cambren gyda'u henw a hongian eu bagiau a'u cotiau'n annibynnol. Roedd plant yn golchi ac yn sychu eu dwylo'n annibynnol cyn eu byrbryd ac yn rhoi'r tywel papur yn y bin heb anogaeth. Rhoddodd un plentyn, sef “helpwr y dydd”, blât a chwpan i bob plentyn yn ystod amser byrbryd.

Aeth plentyn i nôl hances bapur i sychu ei thrwyn yn annibynnol a heb anogaeth. Roedd plant yn tacluso'r teganau mewn modd prysur ar wahanol adegau yn ystod y sesiwn. Roedd plant yn gallu gwisgo a dadwisgo eu hunain yn y dillad chwarae rôl. Yn ystod y gweithgaredd coginio, roedd plant yn estyn cwscws, tomatos, ciwcymbrau a phuprynnau i'w powlenni unigol yn annibynnol ac yn tywallt eu llaeth eu hunain yn ystod amser byrbryd.  Ar ddiwedd y sesiwn, roedd plant yn cael eu hannog i adnabod a chasglu eu bagiau eu hunain.

Mae'r plant yn datblygu'n dda ac mae ganddynt gyfleoedd gwych i ymarfer eu hannibyniaeth.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae staff yn diwallu anghenion y plant yn gyson gan eu bod yn eu hadnabod yn dda. Maent wedi ymrwymo i ddarparu gweithgareddau ysgogol ac amrywiol ar gyfer plant.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r staff yn ymwybodol o bolisi amddiffyn y gwasanaeth ac yn adnabod y weithdrefn i'w dilyn os oes ganddynt bryder am blentyn. Mae'r gwasanaeth yn hybu ffyrdd iach o fyw.

Roedd y staff yn gwybod bod diogelu plant yn flaenoriaeth uchel ac roedd ganddynt ddealltwriaeth dda o ymdrin â phryderon neu ddatgeliadau pan roddwyd senarios iddynt. Roedd staff wedi diweddaru hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig ac roedd gweithdrefnau clir ar waith i ymdrin â digwyddiadau. Roedd staff a rhieni yn llofnodi cofnodion damweiniau a digwyddiadau. Roedd y staff yn sicrhau bod y plant yn golchi eu dwylo cyn eistedd i lawr i fwyta byrbryd. Roedd cracers, ciwcymbrau, tomatos a phuprynnau – gyda llaeth i'w yfed – yn cael eu darparu fel byrbryd iach. Roedd y staff yn ymwybodol o alergenau ac roeddent wedi cael hyfforddiant. Nid oedd gan y gwasanaeth ardal awyr agored ddynodedig ond roedd yn defnyddio neuadd fawr ar gyfer gweithgareddau megis amser stori "actif", cerbydau i'w gyrru, coginio ac ymarfer chwaraeon. Mae'r gwasanaeth yn defnyddio'r ardaloedd cymunedol yn y cyffiniau megis y cae chwarae criced a'r parc. Mae'n cynnal "Mercher mwdlyd" bob dydd Mercher pan fydd plant yn dod â welingtons a dillad priodol i archwilio'r ardal awyr agored. Mae plant yn coginio bob dydd Iau gyda chynhwysion coginio yn cael eu harddangos ar ddrws y gwasanaeth er sylw rhieni a gofalwyr.

Mae staff yn gymwys o ran cadw plant yn ddiogel ac yn iach.

### 2.2 Pa mor dda mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae gan y gwasanaeth bolisi hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol, ac mae staff yn gyson yn eu dull o reoli rhyngweithio.

Cafodd plant eu canmol gan staff am ymddygiad da a gwnaethant ymateb i blant a oedd eisiau cael eu cofleidio neu eu cysuro. Roedd staff yn tynnu sylw at blant a oedd yn ymddwyn yn briodol yn barhaus trwy eu canmol o flaen plant eraill. Er enghraifft, dywedwyd wrth blant a oedd yn chwarae â'r trac trên: "Da iawn chi am rannu a chymryd tro!" Roedd y staff yn esiamplau da, yn siarad yn gwrtais ac yn garedig â'i gilydd a'r plant. Roedd y plant yn ymddwyn yn dda iawn yn ystod ein hymweliad, gan ofyn yn gwrtais, er enghraifft, am fwy o laeth neu gracers yn ystod amser byrbryd ac yn dweud "diolch". Roedd y plant yn aros mewn rhes daclus i fynd i mewn i'r neuadd fawr ac yn gafael dwylo a helpu ei gilydd pan fo angen. Er enghraifft, yn ystod amser

cylch, gofynnwyd i blentyn a oedd wedi dechrau yn ddiweddar pe bai hi'n hoffi eistedd ar gylch coch, a phwyntiodd un o'r plant hŷn yn garedig i’r man y dylai eistedd arno.

Mae’r staff yn rheoli’r rhyngweithio yn dda iawn.

**2.3 Pa mor dda mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?**

Caiff y plant ofal gan staff gofalgar a meithringar sy'n gwybod hoffterau a galluoedd unigol y plant.

Roedd y staff yn gweithredu egwyddorion y Cyfnod Sylfaen, a gwelsom gynlluniau manwl a baratowyd ganddynt ar gyfer pob ystod oedran. Roedd y staff yn cynllunio gweithgareddau a oedd yn canolbwyntio ar thema fel dan y môr a defnyddiwyd y llyfr "Beni a'i fysedd rhyfeddol" fel ysgogiad. Roedd cynllunio â ffocws a chynllunio dros dro wedi'u cydweddu o gwmpas y thema. Er enghraifft, roedd plant wedi creu slefrod môr gan ddefnyddio potiau iogwrt wedi'u hailgylchu, roeddent wedi ymgymryd â gweithgareddau arnofio a suddo, ac roedd ganddynt ddeunyddiau glas, cregyn a cherrig mân yn eu hardal synhwyraidd. Yn ystod gweithgareddau â ffocws, nododd staff y cam nesaf ar gyfer pob plentyn, a oedd yn ei dro yn bwydo i mewn i gynllunio gweithgareddau. Roedd yr ap “Book Creator for iPad” yn cael ei ddefnyddio i ddangos datblygiad unigol ac roedd yn cynnwys ffotograffau o blant yn dal pensiliau, creu lluniadau, cwblhau posau jig-so a neidio i mewn i gylchoedd, ymhlith eraill. Roedd staff yn rhoi'r rhaglen iaith CHATT ar waith. Roedd y gwasanaeth yn cofnodi dewisiadau'r plant, megis eu hoff fyrbryd a theganau, cyn iddynt ddechrau yn y gwasanaeth.

Mae'r staff yn hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygu plant yn gydlynol.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r amgylchedd yn caniatáu i blant chwarae mewn ardal ddiogel gydag amrywiaeth o gyfleoedd ac adnoddau. Mae'r ystafell wedi'i gosod i fodloni pob maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen. Mae neuadd fawr yn cael ei defnyddio ar gyfer gweithgareddau corfforol.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn lân. Maent yn sicrhau bod risgiau'n cael eu nodi a'u dileu cyn belled â phosib.

Cedwid y drws i'r ystafell dan glo ac roedd defnydd rhagweithiol o lyfr ymwelwyr. Roedd asesiadau risg rheolaidd yn cael eu cynnal ar gyfer y gwasanaeth, yn ogystal ag ar gyfer ymweliadau â'r gymuned. Roedd y staff yn cadw'r adeilad yn lân ac roeddent yn tacluso ar ddiwedd pob sesiwn. Roedd offer trydanol wedi cael profion dyfeisiau cludadwy ac roedd offer glanhau'n cael eu cadw'n ddiogel mewn cwpwrdd nad oedd gan blant fynediad iddo. Roedd y gwasanaeth wedi cofrestru gyda'r asiantaeth safonau bwyd lleol. Cafodd driliau tân eu cofnodi a'u cynnal bob mis. Dangoswyd tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus cyfredol ar yr hysbysfwrdd a gwelwyd tystysgrif y gwasanaeth gwresogi.

Mae staff yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd mewn modd effeithlon.

### 3.2 Pa mor dda mae'r arweinwyr yn sicrhau addasrwydd yr amgylchedd?

Mae'r amgylchedd tu mewn yn groesawgar ac yn gyfeillgar i blant gyda llawer o waith plant ac arddangosfeydd lliwgar.

Roedd gan y brif ystafell ystod eang o ardaloedd chwarae sy'n addas ar gyfer plant: chwarae rôl, creadigol, byd bach, adeiladu, a chwarae tywod a dŵr. Roedd arddangosfeydd lliwgar ar y wal yn cynnwys arddangosfa dan y dŵr a slefrod môr ac roedd pysgod yn crogi o rwydi ynghlwm wrth y nenfwd. Roedd neuadd fawr yn cael ei defnyddio ar gyfer cyfarpar mawr megis cerbydau y gellir eu reidio ac amser stori “actif” gan nad oedd gan y gwasanaeth ardal awyr agored ddynodedig. Roedd y neuadd hefyd yn cael ei defnyddio ar gyfer gweithgareddau coginio, amser byrbryd, a chylch Ti a Fi, pan oedd y plant yn ymuno â'r gweithgareddau.

Mae'r amgylchedd yn addas iawn i'r plant.

### 3.3 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a'r offer?

Mae'r plant yn elwa ar gael adnoddau, offer a theganau o ansawdd da.

Roedd yr adnoddau a'r offer o ansawdd da ac yn addas i'r pwrpas. Roedd staff wedi darparu dodrefn maint addas i blant er mwyn caniatáu iddynt eistedd wrth fyrddau'n annibynnol a chyrraedd teganau a chyfarpar. Roedd yr adnoddau a'r offer mewn cyflwr da ac yn lân. Roedd digonedd o adnoddau i'r plant ddewis o'u plith. Roedd llyfrau a theganau amlddiwylliannol ar gael ac yn cael eu defnyddio wrth edrych ar thema benodol megis y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a Diwali. Roedd arweinwyr wedi ymuno â chynllun “Bagiau Chi a Fi”, a oedd yn darparu adnoddau i wella sgiliau penodol megis sgiliau echddygol manwl i'w gwneud gartref gyda rhieni neu ofalwyr.

Mae’r arweinwyr a’r staff yn darparu ac yn cynnal adnoddau ac offer o ansawdd da.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### Crynodeb

Mae arweinwyr yng Nghylch Meithrin Bronwydd yn sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei redeg yn dda ac yn cael ei staffio'n gywir. Maent yn sicrhau bod anghenion y plant yn cael eu diwallu a bod staff yn cael cyfleoedd hyfforddi ac arfarniadau rheolaidd. Mae gan y gwasanaeth gysylltiadau ardderchog gyda'r gymuned.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i gydymffurfio â'r rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol. Mae ethos sy'n gwerthfawrogi staff a phlant, gyda'u hanghenion wrth galon y ddarpariaeth.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod staff yn gweithredu polisïau'r gwasanaeth yn llawn. Mae polisïau'n cael eu hadolygu'n flynyddol. Mae'r tîm o staff yn gweithio'n dda gyda'i gilydd ac yn effeithiol gyda chymorth yr arweinwyr. Roedd y datganiad o ddiben yn cydymffurfio â'r safonau gofynnol cenedlaethol ac yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd. Roedd staff yn gweithio'n dda gyda'i gilydd ac roedd yn amlwg fod ganddynt berthynas gadarnhaol â rhieni, a roddodd adborth canmoliaethus iawn am y gwasanaeth.

Mae’r arweinyddiaeth yn y gwasanaeth hwn yn effeithiol.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw’r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae’r arweinwyr yn adolygu’r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn cymryd i ystyriaeth safbwyntiau’r plant, y rhieni a’r staff.

Roedd yr arweinwyr yn adolygu’r gwasanaeth yn flynyddol ac yn llunio adroddiad. Dywedodd arweinwyr wrthym eu bod bob amser yn chwilio am feysydd i’w ddatblygu, eu gwella a chynllunio ar eu cyfer yn y flwyddyn i ddod. Roedd hyn yn amlwg yn adroddiad eleni, a oedd yn amlygu'r angen i wrando ar lais y plentyn. O ganlyniad, roedd staff wedi mynychu cyrsiau, cafodd polisi ei greu, cafodd syniadau plant eu hymgorffori mewn gweithgareddau a gynlluniwyd, ac roedd amser cylch yn cael ei ddefnyddio i gasglu barn y plant. Roedd y gwasanaeth hefyd yn cymryd rhan mewn amryw o gynlluniau megis 'Bagiau Chi Fi' a chynllun 'Actif' y sir.

Mae hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliannau yn effeithiol.

### 4.3 Pa mor effeithiol mae ymarferwyr, y staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y nifer cywir o staff yn y gwasanaeth a bod digon o weithgareddau ar gael ar gyfer nifer y plant sy'n mynychu.

Roedd ffeiliau staff yn cynnwys yr holl ddogfennau perthnasol ac roedd yr holl wiriadau angenrheidiol wedi cael eu cynnal. Roedd gan y staff gymwysterau priodol. Roedd arfarniadau blynyddol yn cael eu cynnal ac roeddent yn nodi anghenion hyfforddi a thargedau personol ar gyfer datblygu. Roedd sesiynau goruchwylio unigol i staff yn cael eu cynnal yn anffurfiol ac roedd cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn wythnosol. Roedd yr holl hyfforddiant craidd yn gyfredol ac roedd staff wedi mynychu nifer o gyrsiau hyfforddi eraill megis gwrando ar lais y plentyn, prosesu synhwyraidd a chwarae synhwyraidd, yn ogystal â chwblhau hyfforddiant ar-lein ar atal radicaleiddio.

Mae’r gwaith o reoli staff ac adnoddau eraill yn dda.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae arweinwyr a staff yn mwynhau perthynas ardderchog gyda rhieni a gofalwyr. Mae ganddynt gysylltiadau da gydag ysgolion bwydo ac asiantaethau allanol eraill.

Roedd rhieni a gofalwyr yn y gwasanaeth yn siarad yn gadarnhaol iawn am y gwasanaeth a'r staff. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod i gyd yn hapus gyda'r wybodaeth a gawsant am y gwasanaeth a'u bod yn teimlo'u bod yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â datblygiad eu plentyn. Mae digwyddiadau codi arian a digwyddiadau cymdeithasol megis cyngherddau Dewi Sant a'r Nadolig, diwrnod mabolgampau, boreau coffi a helfeydd trysor i gyd yn cael cefnogaeth dda gan y gymuned leol. Mae arweinwyr yn gweithio'n agos gyda'r ysgol fwydo, gan drosglwyddo gwybodaeth am ddisgyblion a’u gwahodd i orymdaith boned y Pasg y gwasanaeth a chyngherddau Dewi Sant a'r Nadolig, yn ogystal â threfnu ymweliadau pontio â'r ysgol. Mae'r plant yn cymryd rhan mewn cystadlaethau lleol megis y clwb garddio lleol a’r gystadleuaeth paentio cerrig. Mae arweinwyr yn cyfrannu newyddion y gwasanaeth yn fisol i bapur newydd cymunedol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod plant ag anghenion ychwanegol yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt trwy ofyn am gyngor ac arweiniad gan asiantaethau allanol.

Mae gan y gwasanaeth bartneriaethau rhagorol gyda rhieni a chysylltiadau â'r gymuned ac asiantaethau allanol.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom argymell y canlynol:

- bod ffens yn cael ei gosod wrth ymyl y grisiau sy'n arwain at y neuadd

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n hamserlen arferol o arolygiadau. Rhoddwyd adborth dros y ffôn.

- Cynhaliodd un arolygydd ymweliadau â'r gwasanaeth ar 28 a 29 Mehefin 2018 a oedd yn para am gyfanswm o bedair awr.
- Gwnaethom archwilio sampl o ddogfennau a pholisïau, gan gynnwys ffeiliau staff, ffeiliau plant, cofnodion hyfforddiant, cofnodion damweiniau, a chofnodion cynllunio.
- Gwnaethom arsylwi ar blant gan ddefnyddio offeryn y Fframwaith Arsylwi Cryno ar gyfer Arolygu (SOFI) i gasglu tystiolaeth am ymgysylltiad y plant a'r gofal a ddarperir gan staff.
- Gwnaethom siarad â'r person â gofal, plant, rhieni, staff, a'r person cofrestredig.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal dydd plant**<br>**Gofal dydd sesiynol** |
| **Person cofrestredig** | **Mair Rees** |
| **Person â gofal** | **Sally Verona Clift** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **24** |
| **Ystod oedran y plant** | **2 – 5 mlwydd oed** |
| **Oriau agor** | **9.15am i 12pm o ddydd Mawrth i ddydd Gwener**<br>**Tymor yr ysgol yn unig** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **8 Hydref 2015** |
| **Dyddiadau'r ymweliadau arolygu hyn** | **28 a 29 Mehefin 2018** |
| **Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg y blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair blwydd oed?** | **Ydy** |
| **Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg?** | **Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi**<br>**ac yn diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu a allai ddefnyddio'r gwasanaeth o ran y Gymraeg a'i diwylliant.** |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | |